# Taliadau a Gynigiwyd ar gyfer 2015-16

# Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw

## Cynnwys


1. Cyflwyniad Tudalen 3
2. Ein Cynigion Tudalen 3
3. Ymatebion i’r Ymgynghoriad Tudalen 5
4. I Gloi Tudalen 7

Atodiad 1 – Newidiadau Arfaethedig i Daliadau Sylfaenol Tudalen 8

Atodiad 2 – Newidiadau Technegol Tudalen 9

Atodiad 3 – Rhestr ymatebwyr Tudalen 11

Atodiad 4 – Crynodeb o’r ymatebion Tudalen 12

Atodiad 5 – Sylwadau CNC ar yr ymatebion a ddaeth i law Tudalen 13

## 1. Cyflwyniad

I ddatblygu Cynllun Taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16 mae'n ofynnol inni ymgynghori ynghylch ein cynigion ac ystyried yr ymatebion cyn cytuno ar ein cynllun ar ei wedd derfynol.

Yn ddiweddar cynaliasom ymgynghoriad 13 wythnos a ddaeth i ben ar 9 Ionawr 2015. Cyn yr ymgynghoriad roeddem wedi sefydlu Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau i darfod y cynigion gyda rhai o'n rhanddeiliaid mawr a grwpiau cynrychiadol. Rhyddhawyd datganiad i'r wasg hefyd, buom yn gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid sefydledig ac anfonwyd ebost at y cwsmeriaid hynny rydyn ni'n eu rheoleiddio'n uniongyrchol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynigion. Gydol y cyfnod ymgynghori rhoddwyd y Ddogfennau Ymgynghori ar ein gwefan.

Cawsom 14 ymateb i gyd a defnyddiwyd y rhain ynghyd ag adborth gan grwpiau rhanddeiliaid i ddatblygu ein cynllun terfynol ymhellach.

## 2. Ein Cynigion

Roedd ein dogfen ymgynghori yn amlinellu nifer o gynigion gwahanol, yn cynnwys newidiadau i'n taliadau sylfaenol, newidiadau technegol o fewn y cynllun Trwyddedu Amgylcheddol a newidiadau posibl i'r dyfodol. Gwnaed hyn er mwyn cael mewnbwn cynnar gan ein rhanddeiliaid.

### Newidiadau i Daliadau Sylfaenol

Am ddwy flynedd gyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi bod yn rhan o gynllun taliadau 3 blynedd (2012-13 i 2014-15) lle cytunwyd ar gyfraddau gan Lywodraeth Ganolog mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru, sy'n golygu bod taliadau (ac eithrio Tynnu Dŵr) wedi eu pennu ar yr un gyfradd i Gymru a Lloegr. Nid yw'r cyfraddau presennol felly wedi eu cyfrifo i lefel sy'n adlewyrchu costau ein gweithgareddau ni yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at etifeddu gwargedau a diffygion sy'n deillio o'r cynlluniau taliadau unigol.

Yn ystod 2014-15, aethom ati i adolygu sylfaen gostau ein cynllun taliadau a modelwyd yr incwm a'r gwariant oedd yn cael eu rhagweld yn y blynyddoedd i ddod. Trwy wneud hyn rydym wedi sicrhau bod y costau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau'n ymwneud yn benodol â'n gweithgarwch rheoleiddio a bod y symiau a bennir gennym o safbwynt gorbenion corfforaethol a thaliadau ariannu'n gywir.

Yn ein hymgynghoriad, dim ond lle'r oedd cynlluniau'n dangos balans sylweddol (gwarged neu ddiffyg) a bod angen cymryd camau i gywiro hynny yr awgrymwyd newidiadau. Ceir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig i daliadau sylfaenol yn Atodiad 1.

### Newidiadau Technegol

Cynigiwyd sawl newid technegol o fewn trefniadau penodol a cheir crynodeb o'r rhain isod:

Tynnu dŵr

- Cyflwyno 'Tâl Ymgeisio Uwch' o £1,500 ar gyfer rhai ceisiadau Adnoddau Dŵr, i sicrhau ein bod yn adennill y costau'n llawn.

Trwyddedu Amgylcheddol

- Cyflwyno tâl ychwanegol o £350 am bob tro y gofynnir inni ailasesu cynllun adennill/gwaredu gwastraff.
- Cyflwyno tâl parhau wedi'i gapio ar £3,190 i gyfleusterau trwyddedig sydd ar y cam cyn adeiladu.
- Adlewyrchu'r Cynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) sy'n cael ei weithredu gan Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â Thrwyddedu Amgylcheddol, fel mesur tymor byr nes y cynhelir yr adolygiad mawr y bwriedir ar hyn o bryd ei gynnal yn 2018-19. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ynglŷn â'r agwedd arbennig hon rhwng Cymru a Lloegr.

Manylir ymhellach ar y newidiadau hyn yn Atodiad 2.

### Cynigion Eraill

Cyflwynasom hefyd y syniad o godi tâl am Ganiatâd Amddiffyn rhag Llifogydd a Chyngor Cynllunio Datblygu cyn ymgeisio yn y dyfodol.

## 3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Daeth 14 ymateb i law i gyd ac mae'r rhestr ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad 3.

### Themâu Allweddol yr Ymatebion

- Roedd cefnogaeth eang i'r egwyddorion allweddol yr ydym yn cadw atynt wrth ddatblygu ein cynllun taliadau, sef bod ein penderfyniadau ynglŷn â thaliadau yn dryloyw, osgoi trawsgymorthdalu rhwng trefniadau a chadw taliadau mor isel â phosibl. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn benodol at yr angen i sicrhau ein bod yn cyfyngu'n hunain i adennill ein costau.
- Roedd Dŵr Cymru Welsh Water am i'r arian a gasglwyd i dalu am welliannau cyfalaf posibl yn Llyn Brianne gael ei ddychwelyd i'r rhai oedd wedi talu, a hynny dros gyfnod o 5 mlynedd. Roedd hefyd am weld gostyngiad o 9.5% yn y tâl sylfaenol Tynnu Dŵr.
- Mae'r sector Ynni Dŵr, ynghyd â'r CLBA (*Countryside Landowners Business Association*) ac undebau'r ffermwyr yn dal i wrthwynebu unrhyw gynnydd yn ein ffioedd ymgeisio, yn enwedig i gynlluniau tynnu dŵr bach. Awgrymwyd y dylid eithrio datblygiadau ar raddfa fach a sefydlu graddfa daliadau wedi'i bandio i'r gweddill.

- Prin yw'r gefnogaeth i gynyddu'r taliadau Gwastraff a Gweithfeydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Awgryma Energy UK y dylai fod cynnydd i Wastraff efallai ar lefel uwch nag i Weithfeydd gan fod y diffyg yn fwy.
- Prin yw'r gefnogaeth i gynyddu'r taliadau Ansawdd Dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Codwyd pryderon gan undebau'r ffermwyr y gallai codiadau effeithio'n sylweddol ar fusnesau fferm.
- Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth o blaid y newidiadau technegol cyhyd â bod y costau'n adlewyrchu'r gwaith sy'n ofynnol.
- Cawsom gefnogaeth eang i gyflwyno taliadau newydd am Ganiatâd Amddiffyn rhag Llifogydd ac awgrym y dylem weithio gyda'r Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynllun i gyflwyno trefn gyson er ymdrin â chyrsiau dŵr o bob math.
- Cawsom gefnogaeth ofalus i'n cynigion i godi tâl am gyngor cyn cynllunio anstatudol, gyda chafeat bod y cyngor a roddir yn gyngor da, yn cael ei ddarparu'n amserol ac mewn ffordd broffesiynol. Mae pryder cyffredinol y bydd codi tâl yn atal datblygwyr rhag ceisio cyngor yng nghamau cynnar datblygiad, a gallai hynny fod yn niweidiol i'r amgylchedd.
- Mae awydd am fwy o dryloywder yn ein taliadau, ac angen i ddeall sut y caiff y taliadau eu gwario. Law yn llaw â hyn gelwir am fwy o effeithlonrwydd yn CNC – effeithlonrwydd y gellir ei ddangos – ynghyd â chynllun effeithlonrwydd ar gyfer y dyfodol.

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r newidiadau arfaethedig i daliadau sylfaenol

Cawsom 1 ymateb cadarnhaol a 4 negyddol i'n hawgrym y dylid codi taliadau ar Weithfeydd a Gwastraff 5% o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Roedd rhai'n gwrthwynebu hyn am ei fod yn fwy na chwyddiant ac roedd eraill yn pryderu ynglŷn â'r diffyg tryloywder a'r angen am fwy o effeithlonrwydd.

Cawsom 1 ymateb cadarnhaol ac 1 negyddol i'r cynnydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr a awgrymwyd gennym yn ymwneud ag Ansawdd Dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Roedd pryder y gallai hyn o bosibl arwain at godiadau pellach y flwyddyn ddilynol gan greu ansicrwydd i gwsmeriaid a dywedwyd y byddai cynllun sy'n cwmpasu mwy nag un flwyddyn yn fwy addas mae'n debyg. Codwyd pryderon eto hefyd ynglŷn â diffyg tryloywder a'r angen am fwy o effeithlonrwydd.

Cawsom 3 ymateb cadarnhaol ac 1 negyddol mewn perthynas â'n cynnig i ostwng taliadau Tynnu Dŵr 5% ac roedd cwsmeriaid yn cefnogi'r gostyngiad er mwyn adlewyrchu'r gwariant cyfredol. Awgrymwyd hefyd y dylid ad-dalu'r arian a gasglwyd i ariannu gwaith yn Llyn Brianne yn hytrach na chyflwyno gostyngiad i fantoli'r gwarged yn y trefniadau.

O ran gadael trefniadau eraill fel y maent gyda CNC yn ysgwyddo pwysau costau ar y cynlluniau hynny, cawsom 6 ymateb cadarnhaol ac 1 negyddol.

### Crynodeb o'r Ymatebion i'r newidiadau technegol arfaethedig

Cawsom 2 ymateb cadarnhaol a 5 negyddol i'n cynnig i gyflwyno 'Ffi Ymgeisio Uwch' newydd i rai ceisiadau am drwydded tynnu dŵr. Roedd ymatebwyr yn poeni nad oedd y tâl yn gymesur ac y byddai'n niweidiol i gynlluniau llai, ac awgrymwyd cynllun codi tâl mwy cymesur ar ffurf bandiau ynghyd ag eithriad i gynlluniau llai. Roedd ymatebwyr yn awyddus hefyd i weld rhagor o arbedion effeithlonrwydd a mwy o dryloywder.

Cawsom 3 ymateb cadarnhaol i'n cynnig i godi tâl bob tro y mae gweithredwr yn gofyn am i'w gynllun adennill gwastraff gael ei adolygu, ond codwyd mater tryloywder hefyd.

Cawsom 3 ymateb cadarnhaol i'n cynnig i gapio'r tâl blynyddol i'r safleoedd hynny sy'n dal ar gam cyn adeiladu, gyda chais ar inni wneud beth y mae hyn yn ei olygu i safleoedd mewn gwirionedd yn glir.

Cafwyd 2 ymateb cadarnhaol ac 1 negyddol i'n cynnig i adlewyrchu cynllun OPRA Asiantaeth yr Amgylchedd o ran Trwyddedu Amgylcheddol. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod yr angen am gysondeb yn y tymor byr cyhyd â bod ymrwymiad i adolygu'r cynllun a chyflwyno cynllun symlach yn y tymor hwy.

### Crynodeb o'r Ymatebion i newidiadau arfaethedig eraill

Cafwyd 4 ymateb cadarnhaol ac 1 negyddol mewn perthynas â'n cynigion a'n hegwyddorion cyffredinol i sefydlu cynllun taliadau newydd ar gyfer Amddiffyn rhag Llifogydd. Daeth hyn gyda chafeat fod ymatebwyr am weld rhagor o fanylion am y cynigion pan fyddant wedi cael eu datblygu.

Cafwyd 7 ymateb cadarnhaol a 2 negyddol ynglŷn â'r ospiwn i godi tâl am gyngor cynllunio anstatudol yn y dyfodol. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddorion ond pwysleisiwyd bod rhaid i unrhyw wasanaeth fod yn amserol a phroffesiynol a rhaid iddo gynrychioli gwerth am arian i'r cwsmeriaid. Darparwyd rhai enghreifftiau o sut y gallai'r system weithredu. Codwyd pryderon hefyd y gallai codi tâl am y cyngor hwn atal rhai datblygwyr ac y byddid felly'n colli'r cyfle i CNC awgrymu gwelliannau amgylcheddol yn gynnar yn y cynllun.

Ceir tabl yn crynhoi'r ymatebion a sylwadau CNC arnynt yn Atodiadau 4 a 5.

## 4. I Gloi

Rydym wedi gwneud rhagor o fodelu ariannol ers cychwyn yr ymgynghoriad, gan ddefnyddio gwell data i ddisgrifio unrhyw ddiffygion a gwargedau o fewn trefniadau penodol yn well. Rydym hefyd wedi parhau i yrru effeithlonrwydd yn ein systemau a'n prosesau ar draws adrannau, a fydd yn ein galluogi i ysgwyddo rhai o'r pwysau costau yr ydym wedi'u hetifeddu drwy'r cynllun taliadau presennol.

Rydym wedi ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf hon a barn yr ymatebwyr a'n rhanddeiliaid ehangach wrth ddatblygu ein cynllun terfynol.  Mae'r taliadau terfynol sydd i gael eu cynnwys yn ein cynllun i'w gweld yn Atodiad 1 felly.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid yn y sector ynni dŵr i ddatblygu cynllun wedi'i fandio ar gyfer ffioedd ymgeisio ynni dŵr. Gwnaed hyn yn bosibl drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i adolygu ein data a gwneud arbedion effeithlonrwydd a fydd yn golygu newidiadau i'n sylfeini costau uniongyrchol a chorfforaethol dros amser. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw newid sy'n ofynnol o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol.  Gwnawn dynnu sylw at ganlyniadau ein hadolygiad pan fyddwn yn ymgynghori nesaf ynglŷn â newidiadau i'n cynllun taliadau yn hydref 2015.

## Atodiad 1   Newidiadau Arfaethedig i Daliadau Sylfaenol

| **Cynllun Taliadau** | **% Newid a Gynigiwyd yn Wreiddiol 2015-16** | **% Newid a Gynigiwyd yn Derfynol 2015-16** |
|---|---|---|
| **a) Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol** | | |
| Gweithfeydd (Ymgeisio a Pharhau) | +5% | +2.5% |
| Gwastraff (Ymgeisio a Pharhau) | +5% | +2.5% |
| Ansawdd Dŵr (Ymgeisio a Pharhau) | +CPI | 0 |
| **b) Tynnu dŵr** | | |
| Adnoddau Dŵr - Tynnu Dŵr (Parhau) – Tâl Uned Safonol | -5% | -10.4% |

# Atodiad 2  Newidiadau Technegol Arfaethedig

## Newidiadau Technegol i daliadau Tynnu Dŵr

Ar hyn o bryd mae dwy ffurf i'n taliadau tynnu dŵr:

1. Ffi ymgeisio ynghyd â thâl parhau blynyddol
2. Ffi ymgeisio heb dâl parhau blynyddol,

Nid ydym yn adennill yn llawn gost y gwaith a wnawn i asesu'r wybodaeth ymgeisio a dderbyniwn neu i gyflwyno'r drwydded, trwy godi tâl ymgeisio'n unig.   Felly, mae angen i ni wneud rhai newidiadau i daliadau tynnu dŵr i dalu am gostau'r gwaith hwn.

Os yw deiliaid trwydded yn y cynllun hwn yn talu tâl parhau blynyddol, bydd y tâl ymgeisio presennol o £135 yn aros yr un fath; cyfeirir ato fel y Tâl Ymgeisio Is.  Os nad oes unrhyw dâl parhau blynyddol rydym yn bwriadu cyflwyno Tâl Ymgeisio Uwch newydd o £1,500 o 1 Ebrill 2015 er mwyn adennill costau'r gweithgareddau hyn. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar rhwng 100 a 300 o ymgeiswyr trwyddedau bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf.

Wrth gyfrifo'r ffigwr hwn aseswyd nifer yr oriau a gymerwyd i benderfynu ynghylch gwahanol drwyddedau tynnu dŵr a chronni. Roedd costau'n amrywio o £2,000 - £10,000 yn dibynnu ar eu cymhlethdod. Bellach rydym wedi cyflwyno dull symlach ar gyfer y trefniadau trwyddedu hyn, felly rydym yn rhagweld y bydd y costau hyn ychydig yn llai o ganlyniad i hyn. Felly, rydym yn bwriadu codi tâl ymgeisio o £1,500 sy'n adlewyrchu pen isaf yr amrediad a nodwyd. Byddwn yn parhau i fonitro costau gwirioneddol i sicrhau bod y ffi y bwriedir ei godi yn adennill y costau'n llawn.

Byddai'r Tâl Ymgeisio Uwch yn berthnasol pan wneir cais i drosglwyddo, amrywio neu gael trwydded newydd ar gyfer:

- trwydded tynnu dŵr (trosglwyddo)
- trwydded gronni
- trwydded lawn ar gyfer dŵr a dynnir yn uniongyrchol i'w ddefnyddio i gynhyrchu trydan neu fath arall o bŵer gan unrhyw orsaf gynhyrchu neu offer â chapasiti o ddim mwy na phump megawat.

Os gwneir cais am drwydded tynnu dŵr a chronni yr un pryd byddem yn codi un tâl yn unig, ar yr amod eu bod yn ymwneud â:

- gweithgareddau cysylltiedig mewn un safle, **a;**
- bod modd i ni wneud y penderfyniad technegol yr un pryd

Derbyniwn fod dulliau posibl eraill a fyddai'n galluogi i ni adennill ein costau, er enghraifft, bandio ymhellach y ffioedd ymgeisio. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar hyn. Yn y flwyddyn nesaf (2015-16) byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn ymchwilio rhagor i hyn, a sefydlu pa ddewisiadau eraill sydd, gan amcanu ymgynghori ynghylch unrhyw newidiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn honno.

Mae rhai tyniadau dŵr wedi eu heithrio, ar hyn o bryd, rhag eu rheoli gan drwyddedau. Fodd bynnag, gellid eu diddymu yn y dyfodol, ac yna delai'r fath

geisiadau o dan y tâl cyfradd uwch. Parhawn i beidio â chodi ar gyfer yr eithriadau a restrir yn adran 4.2 o'n Cynllun Taliadau Tynnu Dŵr presennol.

### Newidiadau technegol i'r Cynllun Trwyddedu Amgylcheddol (Gweithfeydd a Chyfleusterau Gwastraff)

Bwriadwn newid y Cynllun Taliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer 2015-16 fel a ganlyn.

### Asesu adennill neu waredu

Cyn i ni gyflwyno rhai mathau o drwyddedau mae angen i ni asesu ai proses ydyw i adennill neu waredu gwastraff. Mae'r asesiad cychwynnol wedi ei gynnwys yn y ffi ymgeisio am drwydded ond yn ôl tystiolaeth gynyddol, mae cynlluniau gweithredwyr yn newid ac mae angen i ni gynnal asesiadau pellach. Nid oes unrhyw fodd i ni adennill y costau hyn ar hyn o bryd.  Felly bwriadwn gyflwyno tâl ychwanegol o £350 bob tro y ceir cais gan weithredwr i ailasesu'r cynllun adennill gwastraff. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn adennill costau'r ailasesiad unwaith yr ydym wedi cyflwyno'r drwydded a bydd yn cael ei sbarduno gan gais penodol gan y gweithredwr i ni wneud hynny.

### Tâl parhau i ddeiliaid trwydded ar gyfer y cam cyn adeiladu

Cyflwynasom rai newidiadau i'n cynllun taliadau blaenorol, gan leihau'r taliadau blynyddol yr oedd yn rhaid i ddeiliaid trwyddedau amgylcheddol eu talu os nad oedd y gwaith o adeiladu'r cyfleuster a ganiatawyd wedi dechrau eto. Yn flaenorol roedd y cynllun hepgor taliadau yn parhau nes bod y gwaith adeiladu wedi dechrau neu tan Ebrill 2015, pa un bynnag oedd y cynharaf. Roedd pawb yn elwa ar hyn, ond oni bai ein bod yn gwneud newidiadau i'n cynllun nawr bydd y gostyngiad yn dod i ben yn ystod 2015/16.  Rydym yn bwriadu capio taliadau, oherwydd ein bod yn cydnabod y bydd ein costau'n lleihau os nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau eto. Fodd bynnag, mae costau o hyd ar gyfer cysylltu â'r gweithredwr a'r datblygwr, asesu dogfennau a ddarparwyd ganddynt a chynnal cofnodion trwyddedau.

Felly, rydym eisiau cyflwyno tâl parhau wedi ei gapio os yw gweithgareddau a ganiateir yn y cam cyn adeiladu. O dan ein cynigion ni fyddai deiliaid trwyddedau amgylcheddol yn talu mwy na £3,190 y flwyddyn am yr amser y mae eu safle'n dal yn y cam cyn adeiladu. Unwaith y byddai'r gwaith adeiladu'n dechrau, byddai'r capio'n cael ei ddileu a byddai deiliaid trwyddedau'n talu'r gyfradd lawn wedi hynny. Byddai hyn ar sail pro rata ar gyfer y flwyddyn y mae'r gwaith adeiladu'n dechrau.

### Cysylltiadau â Chynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol

Ar hyn o bryd defnyddir Cynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol i gyfrifo taliadau ar gyfer rhai gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad sylweddol o'n dull presennol fel rhan o'n trefniadau taliadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau mawr i'n dull.

Caiff Cynllun OPRA ei ddiwygio o bryd i'w gilydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Rydym yn awyddus i hysbysu'r rhai sy'n gwneud taliadau i Cyfoeth Naturiol Cymru

ynglŷn â sut mae ein taliadau'n gysylltiedig â Chynllun OPRA Trwyddedu Amgylcheddol a'u galluogi i dracio unrhyw newidiadau a wneir.
Hefyd rydym eisiau lleihau unrhyw bosibilrwydd o ddryswch. Felly, hyd nes ein bod wedi cwblhau ein harolwg ehangach, fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o Gynllun OPRA Trwyddedu Amgylcheddol, fel y'i cyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
Felly rydym yn annog y rhai sy'n gwneud taliadau i Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfeirio at ymgynghoriad ar daliadau Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n esbonio'r cynigion presennol ar gyfer newidiadau technegol i Gynllun OPRA.
Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymgynghori, ar hyn o bryd, ynghylch newid ei chynllun – mae'r wybodaeth ar gael yn rhan ymgynghoriadau ei gwefan.

## Atodiad 3  Rhestr Ymatebwyr

Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Cymru
Guardian Global Technologies Ltd
British Hydropower Association
CLA Cymru
Dŵr Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Bwrdd Draenio Mewnol Morfa Gwent
Clive Payne – Safle Mwynau Senghennydd
Vattenfall UK
Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Energy UK
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru

Ynghyd ag un ymateb dienw

## Atodiad 4  Crynodeb o'r Ymatebion

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiaeth ymatebion lle gofynnwyd cwestiwn penodol yn hytrach na gofyn am sylwadau cyffredinol.

| Cwestiwn | Cadarnhaol | Negyddol | Ddim yn gwybod | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|
| **1: Ydych chi'n cefnogi newid taliadau Gwastraff a Gweithfeydd y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) lle nad yw'r cynnydd yn adennill ein costau'n llawn?** | 1 | 4 | 0 | 9 |
| **2: Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau i daliadau Ansawdd Dŵr EPR lle nad yw'r cynnydd mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) yn adennill ein costau'n llawn?** | 1 | 1 | 3 | 9 |
| **3: Ydych chi'n cefnogi lleihau'r tâl Trwyddedu Tynnu Dŵr i sicrhau bod modd parhau i adennill costau?** | 3 | 1 | 0 | 10 |
| **4: Ydych chi'n cefnogi ein bwriad i ysgwyddo pwysau costau ar ein cynlluniau taliadau eraill a gadael y taliadau presennol yr un fath?** | 6 | 1 | 0 | 7 |
| **5: Ydych chi'n cefnogi ein bwriad i gyflwyno 'Tâl Ymgeisio Uwch' ac ar ba lefel y dylid ei bennu?** | 2 | 5 | 0 | 7 |
| **7: Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i godi tâl bob tro mae'r gweithredwr yn gofyn i ni adolygu'r cynllun adennill gwastraff?** | 3 | 0 | 1 | 10 |
| **8: Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i gapio'r tâl blynyddol ar gyfer y safleoedd hynny sy'n dal yn y cam cyn-adeiladu?** | 3 | 0 | 0 | 11 |
| **9: Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i adlewyrchu'r newidiadau technegol i'r Cynllun OPRA a gynigir gan Asiantaeth yr Amgylchedd, er mwyn sicrhau cysondeb ynglŷn â'r agwedd arbennig hon rhwng Cymru a Lloegr?** | 2 | 1 | 1 | 10 |
| **10: Ydych chi'n cefnogi ein cynigion a'n hegwyddorion cyffredinol o safbwynt unrhyw gynllun taliadau newydd ar gyfer Amddiffyn rhag Llifogydd?** | 4 | 1 | 1 | 8 |
| **11: Ydych chi'n cefnogi'r opsiwn o godi tâl am gyngor cynllunio datblygu anstatudol?** | 7 | 2 | 0 | 5 |

# Atodiad 5  Sylwadau CNC ar yr ymatebion a ddaeth i law

## Crynodeb o'r ymatebion a'n hateb ni

### 1: Ydych chi'n cefnogi newid taliadau Gwastraff a Gweithfeydd y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) lle nad yw'r cynnydd yn adennill ein costau'n llawn?

Ddim yn cael eu cefnogi'n gyffredinol am eu bod yn rhy uchel.  Roedd ymatebwyr yn awyddus hefyd i gael mwy o dryloywder ac effeithlonrwydd.

### Ateb CNC

Ers i'r ymgynghoriad gychwyn rydym wedi gwneud rhagor o fodelu ariannol gan ddefnyddio gwell data er mwyn disgrifio'n well yr hyn roedden ni'n credu oedd yn ddiffyg o ran adennill costau ar waith gwastraff a gweithfeydd o'u gymharu â'r gwaith oedd yn cael ei wneud.  Mae'r gwaith hwn wedi'n galluogi i ddeall maint y diffyg yn y naill faes a'r llall yn well.  Rydym hefyd yn y broses o roi mesurau effeithlonrwydd ar waith yn ein Cyfarwyddiaethau Gweithrediadau drwy well dulliau gwaith.

### 2: Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau i daliadau Ansawdd Dŵr EPR lle nad yw'r cynnydd mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) yn adennill ein costau'n llawn?

Dim cefnogaeth eang, ac awydd am fwy o dryloywder ac effeithlonrwydd.

### Ateb CNC

Rydym hefyd wedi adolygu'r cynnig i gynyddu taliadau Ansawdd Dŵr ymgeisio a pharhau yn unol â'r CPI. Roedd y cynnydd hwn yn ofynnol i helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa a etifeddwyd gennym lle'r oedd nifer o achosion diffyg adennill wedi cronni.  Bydd y mesurau effeithlonrwydd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol yn gwella'r sefyllfa hon.

### 3: Ydych ch'in cefnogi lleihau'r tâl Trwyddedu Tynnu Ddŵr i sicrhau bod modd parhau i adennill costau?

Cefnogaeth gyffredinol ond roedd cais hefyd am ad-dalu'r arian a fwriadwyd ar gyfer gwaith ar Lyn Brianne.

### Ateb CNC

Rydym wedi cynnal adolygiadau pellach o sylfaen cost Tynnu Dŵr ac wedi mireinio'r modelu i adlewyrchu mesurau effeithlonrwydd wedi'u targedu.  Bydd opsiynau diwygiedig yn cael eu hystyried sy'n adlewyrchu lefel y balansau cyfredol a modelu am y blynyddoedd i ddod.  Gwnaed y modelu hwn gan ragdybio y bydd bilio ar sail dalgylch yn parhau.

Mae'r opsiynau diwygiedig wedi ystyried yn ofalus sut y bydd y gostyngiad yn ein gwarged yn datblygu i'r dyfodol er mwyn sicrhau 'glaniad meddal' sy'n osgoi 'bowndio'n ôl' i lefel uwch o daliadau unwaith y mae'r gwarged wedi cael ei ddileu.

### 4: Ydych chi'n cefnogi ein bwriad i ysgwyddo pwysau costau ar ein cynlluniau taliadau eraill a gadael y taliadau presennol yr un fath?

Cefnogwyd.

### Ateb CNC

Nid oes unrhyw newidiadau sylfaenol eraill wedi'u cynnig a gwneir gwaith pellach gydol 2015-16 i wella effeithlonrwydd a thryloywder yn ein cynlluniau taliadau.

### 5: Ydych chi'n cefnogi ein bwriad i gyflwyno 'Tâl Ymgeisio Uwch' ac ar ba lefel y dylid ei bennu?

Er bod lleiafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, nid oedd y mwyafrif yn ei gefnogi.  Roedd llawer iawn o bryder ynglŷn â lefel y cynnydd a'r effaith ar gynlluniau llai.  Galwyd hefyd am gynllun mwy

cymesur wedi'i fandio, ac am eithrio prosiectau llai.  Roedd awydd hefyd i weld rhagor o fesurau effeithlonrwydd a mwy o dryloywder.

**Ateb CNC**

Rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaeth effeithlon sy'n gweithredu ar sail adennill costau.  Rydym wedi symleiddio'n proses gwneud cais am drwydded drwy newid ein ffordd o weithio a thrwy gyflwyno canllawiau technegol sydd hefyd yn golygu bod arnom angen llai o wybodaeth amgylcheddol gan ymgeiswyr.  Mae'r gwelliannau hyn wedi lleihau'r amser y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i'n Gwasanaeth Trwyddedu benderfynu ar drwydded 50%.  O ddadansoddi'r drefn fwy effeithlon, gwelwyd bod costau gwirioneddol penderfynu ar drwydded yn amrywio o £2,000 i fwy na £10,000, yn dibynnu ar gymhlethdod y cais. Mae'r 'Tâl Ymgeisio Uwch' o £1,500 yn is na'n hamcangyfrifon isaf felly ac yn is na chost wirioneddol gyfredol penderfynu ar gais syml am gynllun ynni dŵr bach.

Cyflwynwyd dadansoddiad manylach o'r costau a wynebir gennym wrth weinyddu ceisiadau yr ydym yn cynnig tâl uwch ar eu cyfer, yn cynnwys ynni dŵr, i Grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr CNC ar 9 Hydref 2014 ac fe'i cylchredwyd wedi hynny i'r holl aelodau.

Rydym yn ceisio gwelliannau effeithlonrwydd pellach yn barhaus er nad yw eu cyflwyno ond yn debygol o ddod â chostau gwirioneddol rhai ceisiadau yn nes at £1500 yn hytrach na gostwng y gwerth hwn ymhellach.

Ers yr ymgynghoriad rydym wedi cael gwybodaeth sy'n cyflwyno'r tâl ymgeisio uwch arfaethedig fel cyfran o gostau datblygiadau ynni dŵr.  Ein blaenoriaeth o hyd, fodd bynnag, yw adennill ein costau fel sy'n ofynnol gan y Llywodraeth . Rydym wedi cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu cymorth ariannol tuag at ffioedd ymgeisio i gynlluniau hydro bach a byddwn yn gweithio gyda hi i weinyddu hyn.

Codwyd yr awgrym y dylid datblygu system gofrestru i ganiatadau ynni dŵr mewn cyfarfod blaenorol o'r Grŵp Rhanddeiliaid.  Mewn ymateb i hynny cynaliasom adolygiad cyfreithiol i ganfod a fyddai system gofrestru yn bosibl o dan y ddeddfwriaeth adnoddau dŵr gyfredol a daeth yr adolygiad i'r casgliad yn ddiweddar nad oes modd gwneud hynny o dan y fframwaith rheoleiddio presennol.

Rydym yn cefnogi'r cysyniad o gynllun taliadau yn y dyfodol lle byddai cost cais yn gymesur â'i gymhlethdod ac â'r costau a wynebir felly wrth benderfynu arno.  Rydym yn casglu rhagor o wybodaeth yn fewnol ac yn ymchwilio i opsiynau fel sail i ddatblygu cynllun taliadau haenog i'r dyfodol.

**6: Pa opsiynau eraill y dylem ni eu hystyried er mwyn adennill ein costau wrth benderfynu ynghylch trwyddedau?**

Gwnaed amryw o awgrymiadau, yn cynnwys eithriadau i gynlluniau bach a chynllun taliadau wedi'i seilio ar fandiau, gyda chostau uwch i brosiectau mwy.  Awgrymwyd hefyd y dylid gwahaniaethu rhwng tynnu dŵr ar gyfer Hydro a mathau eraill o dynnu dŵr gan fod y dŵr yn cael ei ddychwelyd. Gwnaeth llawer o randdeiliaid gais hefyd ar i CNC sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud ar sail adennill costau gyda'r gwaith yn cael ei gyflawni mor effeithlon â phosibl a bod y costau'n cael eu cyfrifo mewn ffordd dryloyw.

**Ateb CNC**

Fel y disgrifiwyd yn ein hymateb i gwestiwn 5 rydym yn cefnogi'r cysyniad o gynllun taliadau yn y dyfodol lle mae cost cais yn gymesur â'i gymhlethdod ac â'r costau a wynebir felly i benderfynu arno. Rydym yn casglu rhagor o wybodaeth yn fewnol ac yn ymchwilio i opsiynau i'n helpu i ddatblygu cynllun o'r fath.

Fel y dywedwyd uchod, cafodd yr awgrym y dylid datblygu system gofrestru i ganiatadau ynni dŵr ei godi mewn cyfarfod blaenorol o'r Grŵp Rhanddeiliaid, ond ni fyddai hyn yn bosibl o dan y ddeddfwriaeth adnoddau dŵr bresennol.  Ni all cynlluniau ar raddfa fach gael eu heithrio rhag trwyddedu o dan yr un fframwaith rheoleiddio.  Dim ond os oes cymorth ariannol ychwanegol ar gael

o ffynonellau eraill y gallai eithrio cynlluniau bach rhag tâl ymgeisio uwch fod yn opsiwn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o gynlluniau cymorth yn y dyfodol.

Mae ynni dŵr eisoes yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth adnoddau dŵr fel tynnu dŵr lle nad yw'r dŵr yn diflannu ac mae cynlluniau o'r fath sydd â chapasiti gosodedig o 5 megawat neu lai yn cael eu heithrio rhag y tâl parhau blynyddol. Ar y llaw arall, mae'r cynnydd cyflym yn y cynlluniau ynni dŵr sy'n cael eu datblygu (wedi cynyddu bedair gwaith drosodd yn y 4 blynedd diwethaf) nes bod mwy na 250 ohonynt wedi dangos, gan fod y diwydiant yn cynyddu cymaint, fod gennym ni, fel rheoleiddiwr, gyfrifoldeb tymor hwy i sicrhau bod gweithredwyr yn cydymffurfio ac i fonitro effeithiau amgylcheddol cronnus. Nid yw'r costau hyn yn cael eu cwmpasu gan y ffi ymgeisio ac maent yn rhoi baich cost pellach arnom. I fynd i'r afael â hyn byddwn yn ymchwilio i opsiynau i gael gwared â'r eithriad cyfredol i ynni dŵr sy'n llai na 5MW rhag y taliadau blynyddol, fel sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth.

Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran ein heffeithlonrwydd wrth benderfynu ar drwyddedau adnoddau dŵr. Rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ganfod cyfleoedd pellach i symleiddio ac i geisio lleihau'r costau y mae rhaid inni eu hadennill oddi wrth ymgeiswyr. Wrth wneud hyn, mae'r costau rydyn ni'n ceisio eu hadennill yn gostau gwirioneddol, nid rhai generig. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid i ganfod ble gallwn ni wella safon ein gwasanaeth i gwsmeriaid.

Er ein bod yn ceisio symleiddio'n proses drwyddedu ymhellach i geisiadau Tâl Uwch, mae'n dadansoddiad yn dangos bod hyn yn annhebygol o ostwng cost ceisiadau islaw £1500 gan fod y swm hwn eisoes yn cynrychioli cost is nag adennill costau'n llawn ar drwyddedau syml (h.y. rhai cynlluniau hydro bach). Mae cynllun taliadau wedi'i seilio ar haenau neu fandiau yn debygol felly o adlewyrchu cost uwch penderfynu ar geisiadau o safon isel, cynlluniau sy'n fwy cymhleth yn dechnegol neu gynlluniau sydd wedi'u dylunio'n wael. O ganlyniad, nid yw'n debygol y bydd unrhyw fudd o oedi cyn cyflwyno'r ffi £1500 nes bydd system daliadau haenog wedi cael ei datblygu.

**7: Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i godi tâl bob tro mae'r gweithredwr yn gofyn i ni adolygu'r cynllun adennill gwastraff?**

Cefnogwyd yn gyffredinol.

**Ateb CNC**

Ni fyddai'r newid hwn yn effeithio ar lawer o weithredwyr gan nad yw'n rhywbeth sy'n digwydd yn aml. Ar hyn o bryd mae cost ymgymryd â'r gwaith hwn yn cael ei chwmpasu gan ein Cymorth Grant gan na chodir tâl. Mae'r gost wedi cael ei chyfrifo ar sail adennill costau, yn ôl faint o amser a gymerir ar gyfartaledd i asesu cais.

**8: Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i gapio'r tâl blynyddol ar gyfer y safleoedd hynny sy'n dal yn y cam cyn-adeiladu?**

Cefnogwyd

**Ateb CNC**

Parhad yw hyn o'r cynllun presennol.

**9: Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i adlewyrchu'r newidiadau technegol i'r Cynllun OPRA a gynigir gan Asiantaeth yr Amgylchedd, er mwyn sicrhau cysondeb ynglŷn â'r agwedd arbennig hon rhwng Cymru a Lloegr?**

Cefnogwyd er mwyn cynnal cysondeb, gyda'r ddealltwriaeth y caiff hyn ei adolygu fel rhan o adolygiad mawr yn y dyfodol, gan fod y system bresennol yn rhy gymhleth. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynglŷn â sut y bydd rhybuddion Rheoliad 60 yn gweithio yng Nghymru.

**Ateb CNC**

Rydym yn cydnabod bod y defnydd presennol o OPRA yn rhywbeth y mae angen inni ei adolygu, a dyna pam y bydd hyn yn un o elfennau ein cynllun taliadau y byddwn yn edrych arni wrth symud i'n

cynllun taliadau newydd. Ar hyn o bryd y bwriad yw gwneud hynny ym mis Ebrill 2018. Credwn na fyddai gwneud newidiadau sylweddol i drefn OPRA cyn hynny yn caniatáu inni ystyried yn briodol sut rydyn ni am i'r system daliadau seiliedig ar risg weithio. Credwn fod dilyn cynllun OPRA Asiantaeth yr Amgylchedd, nes inni ystyried hyn yn iawn fel rhan o'n cynllun taliadau i'r dyfodol, yn ffordd bragmatig ymlaen a'i bod yn golygu llai o risg yn y tymor byr, gan ganiatáu inni ganolbwyntio'n briodol ar ein cynllun taliadau newydd ar gyfer y dyfodol, o 2018 ymlaen. Os gwelwn ni, wrth ystyried y cynllun taliadau ar gyfer y dyfodol, fod manteision sylweddol o wneud newidiadau'n gynt, yn amlwg byddem yn ceisio mabwysiadu'r rhain cyn gynted ag sy'n ymarferol.

**10: Ydych chi'n cefnogi ein cynigion a'n hegwyddorion cyffredinol o safbwynt unrhyw gynllun taliadau newydd ar gyfer Amddiffyn rhag Llifogydd?**

Cefnogwyd y cynigion a'r egwyddorion cyffredinol ac roedd awydd i weld y cynigion manylach pan fyddant wedi'u datblygu.

**Ateb CNC**

Cynhelir ymgynghoriad manylach cyn gwneud unrhyw newidiadau a byddwn yn ceisio cyfleoedd i gysylltu â'n rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynllun o'r fath.

**11: Ydych chi'n cefnogi'r opsiwn o godi tâl am gyngor cynllunio datblygu anstatudol?**

Cefnogwyd y cynigion a'r egwyddorion cyffredinol ac roedd awydd i weld y cynigion manylach pan fyddant wedi'u datblygu. Roedd neges gref hefyd y dylai'r taliadau fod yn gymesur ac wedi'u seilio ar adennill costau ac y bydd angen i unrhyw wasanaeth fod yn amserol a phroffesiynol a bod rhaid iddo gynrychioli gwerth am arian i gwsmeriaid. Codwyd rhywfaint o bryder y gallai hyn atal datblygwyr rhag ceisio cyngor ac y gallai hynny olygu colli'r cyfle i wneud gwelliannau amgylcheddol yn gynnar yn oes cynllun.

**Ateb CNC**

Byddwn yn ymchwilio i opsiynau pellach cyn ystyried cyflwyno taliadau. Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth effeithlon sy'n defnyddio opsiynau eraill fel cyngor ac arweiniad ar-lein. Byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda'n cwsmeriaid ynghyd ag ymgynghoriad manylach cyn gwneud unrhyw newidiadau.

**12: Pa atebion eraill heblaw am wasanaeth taladwy y gellid eu hystyried, gan gydnabod y bydd angen ariannu gwasanaeth o'r fath mewn rhyw ffordd?**

Gwnaed rhai awgrymiadau yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar-lein, ac y dylai taliadau fod yn amodol ar gael caniatâd.

**Ateb CNC**

Gweler yr ymateb i gwestiwn 11.

**13: Pa nodweddion neu agweddau o'n cynllun taliadau sy'n gweithio ar hyn o bryd a beth mae angen ei newid?**

Awgrymwyd y dylai codiadau gael eu capio ar gyfradd chwyddiant a bod angen i bob cynllun fod yn dryloyw ac effeithiol ac yn unol ag egwyddor y Llygrwr sy'n Talu.

**Ateb CNC**

Rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith sydd wedi'i gychwyn i wella'n dulliau gweithio er mwyn gyrru arbedion effeithlonrwydd pellach a chynyddu tryloywder. Byddwn yn parhau i weithio yn unol â'n hegwyddorion codi tâl:

- Tryloywder ein penderfyniadau wrth godi taliadau
- Osgoi trawsgymorthdalu rhwng trefniadau
- Darparu gorwelion cynllunio tymor hirach lle bynnag y bo'n bosibl

- Osgoi cylchoedd o dorri ac yna godi taliadau trwy reoli ein gwargedau a'n diffygion yn weithredol
- Cadw taliadau mor isel â phosibl

Byddwn yn cychwyn ar adolygiad mawr o'n cynlluniau taliadau yn awr, gyda'r bwriad o fod â chynllun wedi'i ddiweddaru ar waith erbyn 2018. Byddwn yn ceisio barn ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid gydol y broses hon.

### 14: Sut gallwn ni gynnwys arfer gorau yn ein cynllun yn y dyfodol?

Er mwyn cynnwys arfer gorau awgrymodd ymatebwyr fod angen inni ymgynghori'n eang ac adolygu'n cyllid a'n dulliau gwaith yn barhaus. Bydd hyn yn caniatáu mwy o effeithlonrwydd a thryloywder fel bod modd i gwsmeriaid ddeall beth mae'u taliadau yn ei gwmpasu.

### Ateb CNC

Gwelwer yr ymateb i gwestiwn 13.

### 15: Oes gennych chi unrhyw syniadau neu sylwadau ychwanegol ynglŷn â beth y dylid ei gynnwys yn ein strategaeth a'n cynllun taliadau yn y dyfodol?

Ymysg yr awgrymiadau a gafwyd mae:
**-** Angen adlewyrchu bod pob cynllun ynni dŵr yn wahanol o ran graddfa a refeniw.

- Taliadau is am drwyddedau amgylcheddol fel cymhelliant i arfer gorau a sicrwydd i'r rhai sy'n talu'r taliadau dros gyfnodau hirach.

- Byddai siart llif rhyngweithiol ar-lein a fyddai'n dangos yn glir pa ganiatadau sy'n ofynnol a'r tâl tebygol (yn cynnwys y gofynion caniatâd allanol lle maen nhw'n hysbys) yn amddiffyn rhag gwaith heb ganiatâd ac yn arbed amser swyddogion ac ymgeiswyr o ran canfod y gofynion.

- Dylai CNC ystyried cymhellion pellach i safleoedd sy'n perfformio'n dda gyda thaliadau parhau is ac yn yr un modd dylai gynyddu'r taliadau i'r rhai sy'n perfformio'n wael yn gyson. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dylai CNC geisio gwahaniaethu rhwng gweithredwyr sy'n gweithredu'n llac a'r rhai sy'n rheoli safleoedd heriol ac yn ceisio gwneud pethau'n iawn. Rhaid hefyd i CNC allu dangos bod sgoriau'n cael eu priodoli'n briodol ac yn gyson gan swyddogion CNC.

- Craffu ychwanegol ar weithredwyr newydd nad oes ganddynt hanes o weithredu yn y sector yn barod. Ni ddylid ystyried bod gweithredwyr presennol sydd â record gydnabyddedig yn cario'r un lefel o risg ac ni ddylent felly orfod talu tâl cychwyn trwydded.

### Ateb CNC

Rydym yn croesawu'r sylwadau hyn a byddwn yn ystyried y rhain ac yn ceisio mewnbwn pellach pan fyddwn yn cynnal adolygiad manylach o'n cynllun yn y dyfodol.